



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Datblygiadau a Rhandiroedd a Ganiateir

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir)1995

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn: 28 Chwefror 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cynigion i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd) i gynnwys hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer codi siediau a thai gwydr ar randiroedd.

Sut i ymateb

Mae set o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori yr hoffai Llywodraeth Cymru ichi ymateb iddynt.

Mae croeso ichi ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg a dylech eu hanfon drwy'r e-bost neu drwy'r post erbyn **28 Chwefror 2020**.

Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod.

Ar-lein:

Llenwch ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein ar y ddolen ganlynol: llyw.cymru/ymgyngoriadau

E-bost:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon mewn e-bost at planconsultations-e@llyw.cymru (Rhowch 'Datblygiadau a Rhandiroedd a Ganiateir' fel y pwnc)

Drwy'r post:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i phostio at:

Datblygiadau a Rhandiroedd a Ganiateir
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Cardiff
CF10 3NQ

**Rhagor o
wybodaeth a
dogfennau
perthnasol**

Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras ac mewn ieithoedd eraill yn ôl y gofyn.

Manylion Cyswilt

I gael rhagor o wybodaeth:

Datblygiadau a Rhandiroedd a Ganiateir
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: planconsultations-e@llyw.cymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon yn unol â'u pwerau statudol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maen nhw'n arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn hepgor y manylion hynny.

Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, ni chedwir eich data gan Lywodraeth Cymru am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- yr hawl i gael gwybod am y data personol a gedwir andanoch ac i'w gweld
- yr hawl i fynnu ein bod yn cywiro unrhyw beth anghywir yn y data hynny
- yr hawl i wrthwynebu (o dan amgylchiadau penodol) prosesu'ch data personol neu gyfyngu ar eu defnyddio
- yr hawl (o dan amgylchiadau penodol) i fynnu bod eich data yn cael eu dileu
- yr hawl i ofyn (o dan amgylchiadau penodol) inni drosglwyddo'ch data i gorff arall
- yr hawl i gofrestru cwyn yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Manylion cysylltu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Datblygiadau a Ganiateir - Rhandiroedd.....	2
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	4

1. Cyflwyniad

'Llewyrch i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol' yn cadarnhau unwaith eto ein hymrwymiad i sicrhau bod cydlynu wrth gynllunio cartrefi, cyfleusterau a seilwaith newydd. Mae cysylltu â chymunedau a rhoi cefnogaeth i dyfu bwyd yn y gymuned a seilwaith gwyrdd yn hanfodol i greu lleoedd ble y mae pobl am fyw, gweithio a mwynhau gweithgareddau hamdden tra hefyd yn hyrwyddo cysylltiadau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys creu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden a chefnogi dulliau iach o fyw drwy hyrwyddo tyfu bwyd o fewn y gymuned.

- 1.1 Nid oes angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad bach nad yw'n cael llawer o effaith ar agweddau eraill, a byddai'n golygu costau sydd heb eu cyfiawnhau ar unigolion ac awdurdodau a busnesau cynllunio lleol. Am sawl blwyddyn, mae datblygiadau o'r fath wedi derbyn caniatâd cynllunio gan y wlad dan sylw, trwy naill ai Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO), neu maent yn cael eu heithrio o'r angen am ganiatâd.
- 1.2 Datblygiad a ganiateir yw datblygiad y gellir ei wneud heb fod angen caniatâd cynllunio gan ei fod eisoes wedi ei ganiatáu o dan y GPDO. Mae Atodlen 2 y GDPO yn cynnwys 43 o rannau sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer ystod eang o ddatblygiadau ar draws sawl sector gwahanol
- 1.3 Cafodd yr [ymgyngoriad](#)¹ ei gyflwyno ar 31 Mai 2018 gan nodi nifer o newidiadau arfaethedig i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (UCO) a'r GDPO yr oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio eu gwneud fel rhan o'r broses o gyfuno pob offeryn statudol.
- 1.4 Mae ymateb dros dro i'r ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi yn benodol i edrych ar yr ymatebion sy'n gysylltiedig ag ehangu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y seilwaith gwefru cerbydau trydan, telathrebu a microgynhyrchu solar annomestig. Daeth [gorchymyn diwygio](#)² i gyflawni'r blaenoriaethau hyn i rym ar 1 Ebrill 2019. Mae ystyried ymatebion i newidiadau arfaethedig eraill yr UCO a'r GDPO yn parhau.
- 1.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i edrych ar gyfleoedd pellach i ehangu hawliau datblygu a ganiateir ble y mae effeithiau canlyniadol yn dderbyniol. Mae hawliau datblygu a ganiateir yn lleihau nifer y ceisiadau cynllunio llai, gan ganiatáu i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio eu hadnoddau ar geisiadau mawr mwy cymhleth.

¹ Cyfuno ac adolygu is-ddeddfwriaeth - <https://beta.gov.wales/subordinate-legislation-consolidation-and-review>

² Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Newidiadau Ansylweddol a Chywiro Gwallau) (Cymru) 2019
<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/330/contents/made/welsh>

2. Hawliau datblygu a ganiateir - Rhandiroedd

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau eang³ ar randiroedd i annog a chefnogi pobl i dyfu bwyd yn y gymuned.
- 2.2 Mae rhandiroedd fel arfer yn rannau mawr o dir sydd wedi'u rhannu yn blotiau llai. Yr awdurdod lleol sy'n berchen ar y safle fel arfer, neu caiff ei reoli gan gymdeithas randiroedd gyda'r plotiau unigol yn cael eu trin gan un person neu deulu. Caiff rhandir ei ddefnyddio fel arfer i dyfu cynnyrch ffres, er ar adegau gall hefyd gael ei ddefnyddio i dyfu planhigion, cadw ieir, cwningod neu wenynd. Mae'r ffrwythau a'r llysiau y maent yn ei dyfu yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer eu defnydd eu hunain ac nid i'w gwerthu. Mae gan y rhai sy'n tyfu yr hawl i werthu cynnyrch dros ben.
- 2.3 Mae'r plotiau fel arfer o faint safonol a chodir tâl bob blwyddyn arnynt ar gyfer rhent a gwasanaethau megis y cyflenwad dŵr. Caiff rhandir ei fesur mewn rodiau yn draddodiadol (perciau neu bolion), dull o fesur sy'n dyddio yn ôl i gyfnod yr Eingl-Sacsoniaid. 10 polyn yw maint derbynol rhandir, sy'n cyfateb â 250 metr sgwâr neu tua maint cwrt tenis dwbl.⁴

Rheolaethau cynllunio presennol

- 2.4 Bydd angen caniatâd cynllunio dim ond os oes unrhyw waith yn cael ei wneud ar y rhandir sy'n bodloni'r diffiniad o 'ddatblygiad' sy'n cael ei bennu yn Adran 55 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Datblygiad yw:

“Mae datblygu yn cael ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth fel cyflawni gweithrediadau adeiladu, peirianneg, mwyngloddio neu weithrediadau eraill mewn, ar, dros neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid perthnasol i'r defnydd a wneir o unrhyw adeilad neu dir arall”

- 2.5 Nid oes unrhyw hawliau datblygu a ganiateir ar hyn o bryd ar gyfer 'datblygu' rhandiroedd.
- 2.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer codi sied neu dŷ gwydr ar randir. Ni ystyrir bod twnnel plastig yn dod o fewn y diffiniad o ddatblygiad, oherwydd maint, dull adeiladu ac i ba raddau y mae'n strwythur parhaol. Bydd hyn yn fater i bob awdurdod cynllunio lleol benderfynu arno yn seiliedig ar amgylchiadau unigol bob achos.

Cynnig

- 2.7 Yr awdurdod cynllunio lleol sy'n gyfrifol am gynllunio ar lefel leol. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn gyfrifol am benderfynu yn y lle cyntaf ar a yw strwythurau ar randiroedd yn 'ddatblygiadau' o dan gyfraith gynllunio ac mae'n

³Rhandiroedd a garddio o fewn y gymuned: canllawiau - <https://gov.wales/allotments-and-community-led-gardening-guidance>

⁴ National Society of Allotment and Leisure Gardeners - <https://www.nsalg.org.uk/allotment-info/>

rhaid iddynt wneud hyn drwy ystyried y ffeithiau i gyd ac amgylchiadau yr achos dan sylw. Yn ymarferol, gallai'r dulliau o fynd i'r afael â hyn amrywio o un awdurdod cynllunio lleol i'r llall, gan arwain at anghysondebau a chreu ansicrwydd i ddeiliaid rhandiroedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig symleiddio'r gweithdrefnau cynllunio i ddileu unrhyw ansicrwydd ynghylch statws cyfreithiol strwythurau ar randiroedd.

- 2.8 Mae strwythurau fel siediau a thai gwydr yn cael eu gosod ar randiroedd yn aml. Mae siediau yn angenrheidiol er mwyn storio offer sy'n cael eu defnyddio wrth weithio ar randir gan gynnig lloches rhag yr elfennau, ac mae tai gwydr yn bwysig iawn i sicrhau yr amodau gorau sydd eu hangen ar gyfer tyfu cynhyrchiol.
- 2.9 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pennu ymrwymiad clir ar gyfer cyrff cyhoeddus i alluogi newid positif sy'n arwain at Gymru gydnerth, ddiogel a iach. Byddai rhoi mwy o ryddid i ddeiliaid rhandiroedd ddatblygu eu plotiau heb fod angen caniatâd cynllunio yn helpu i ddiogelu a rheoli'r ddarpariaeth bresennol o randiroedd. Mae'r ffrwythau a'r llyisiau ffres, yn aml yn organig, sy'n cael eu tyfu yn helpu i sicrhau cyflenwad bwyd mwy cynaliadwy a dibynadwy fydd yn ei dro yn helpu i greu Cymru iachach, hapusach a mwy cynaliadwy.
- 2.10 Rydym felly'n bwriadu cyflwyno rhan newydd i'r GPDO ar gyfer datblygiadau ar dir sy'n cael ei ddefnyddio fel rhandir. Y bwriad yw caniatáu codi sied a thŷ gwydr ar bob plot, ar yr amod bod digon o le iddynt.
- 2.11 I atal y cynnydd yn nwysedd datblygiadau i lefel annerbyniol ar randiroedd rydym yn bwriadu cyfyngu ar nifer y siediau a'r tai gwydr i un ar bob 125 metr sgwâr (sy'n cyfateb â hanner plot).

C1.Ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygiad ar randir?

C2.Ydych chi'n cytuno y dylai hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer rhandiroedd gynnwys codi sied a thŷ gwydr ar un plot?

C3.Os ydych yn ateb ydwyf i C2, ydych chi'n cytuno na ddylai sied neu dŷ gwydr sy'n cael ei ganiatáu gan y GDPO fod yn fwy na 2.5m (dyfnder) x 2.1 (lled) x 2.2m (uchder) (sef sied gardd neu dŷ gwydr domestig safonol 8 x 6)?

C4.Er mwyn rheoli yr effaith weledol a sicrhau lle i dyfu, ydych chi'n cytuno y dylid cyfyngu ar nifer y siediau a'r tai gwydr i un ar gyfer pob hanner plot (125 metr sgwâr)?

C5.Ydych chi'n cytuno y dylid diffinio hanner plot fel 125 metr sgwâr neu lai?

Cewch gyflwyno eich ymateb ar unwaith drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein ar y ddolen ganlynol - llyw.cymru/ymgyngoriadau

Fel arall, cewch lenwi a dychwelyd y ffurflen ymateb canlynol i'r ymgynghoriad.

**Ffurflen Ymateb i Eich enw:
Ymgynghoriad**

Sefydliad (os yn berthnasol):

Ebost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

C1 Ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygu ar randir?

C2 Ydych chi'n cytuno y dylai hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer rhandiroedd gynnwys codi sied a thŷ gwydr ar un plot?

C3 Os ydych yn ateb ie i C2, ydych chi'n cytuno na ddylai mesuriadau sied neu dŷ gwydr sy'n cael ei ganiatáu gan y GDPO fod yn fwy na 2.5m (dyfnder) x 2.1m (lled) x 2.2m (uchder) (sef sied gardd neu dŷ gwydr domestig safonol 8 x 6)?

C4 Er mwyn rheoli yr effaith weledol a sicrhau bod lle i dyfu, ydych chi'n cytuno y dylid cyfyngu ar nifer y siediau a'r tai gwydr i un ar gyfer pob hanner plot (125 metr sgwâr)?

C5 Ydych chi'n cytuno y dylid diffinio hanner plot fel plot heb fod yn fwy na 125 metr sgwâr?

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Cwestiynau eraill

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y cynigion hyn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pwysig: Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch

Mae croeso ichi ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg a dylech ei anfon drwy'r e-bost neu drwy'r post erbyn **28 Chwefror 2020** fan hwyraf.

Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod:

Drwy'r post: Datblygiadau a Rhandiroedd a Ganiateir
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: planconsultations-e@llyw.cymru
(Rhowch 'Datblygiadau a Rhandiroedd a Ganiateir' fel y pwnc)